CYHOEDDIAD

Llythyr gan Jeremy Miles, AS, Gweinidog y Gymraeg ac Addysg at Gadeirydd y Grŵp Cynghori Dylunio a Chyflawni

Llythyr gan Jeremy Miles, AS, y Gweinidog Addysg.

Cyhoeddwyd gyntaf: 13 Gorffennaf 2021

Diweddarwyd ddiwethaf: 13 Gorffennaf 2021

Annwyl Geraint,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 21 Mehefin yn rhinwedd eich swydd fel Cadeirydd y Grŵp Cynghori Dylunio a Chyflawni. Rwy'n ddiolchgar dros ben am yr ymdrechion, yr amser a'r ymroddiad y mae'r Grŵp wedi'i fuddsoddi yn y gwaith o ddatblygu cynigion polisi am drefniadau amgen ar gyfer cymwysterau'r haf hwn ac am eu cefnogaeth wrth fynd ati i'w rhoi ar waith.

Rwy'n croesawu y pwyslais pendant a roddwyd ar gefnogi lles dysgwyr yn

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i **https://llyw.cymru/llythyr-gan-jeremy-miles-gweinidog-y-gymraeg-ac-addysg-gadeirydd-y-grwp-cynghori-dylunio-chyflawni** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

ogystal â'u cynnydd, yr ystyriaeth fanwl a roddwyd i gydraddoldeb, y sylw parhaus i feichiau gwaith ac am ymdrechion y grŵp i greu dull gweithredu sy'n ddigon hyblyg i ymateb i amgylchiadau lleol, ond sydd ar yr un pryd yn darparu cysondeb a thryloywder er mwyn hybu tegwch a hyder y cyhoedd.

Rwy'n sylweddoli na fu hyn yn waith hawdd a'i fod ar brydiau wedi gofyn am drafodaethau manwl a newid dulliau o fynd ati – gan gynnwys ymateb yn gyflym i'r sefyllfa o ran iechyd y cyhoedd wrth iddi waethygu. Rwy'n sylweddoli hefyd fod y gwaith wedi gofyn am lawer mwy o ymroddiad nag a ragwelwyd gan neb o'r aelodau yn wreiddiol. Credaf fod y cytundeb barn o ran cyngor polisi gan groestoriad o arweinwyr ysgolion a phenaethiaid colegau ledled Cymru, ochr yn ochr â chyngor arbenigol a chymorth Cymwysterau Cymru a CBAC, wedi bod yn hollbwysig wrth fynd ati i ddatblygu'r broses ar gyfer pennu graddau mewn canolfannau tra'n cynnal cydymdeimlad a chefnogaeth gyffredinol y sector ar yr un pryd. Rydw i'n hyderus ein bod wedi datblygu system sy'n dryloyw, yn deg ac y gallwn fod yn hyderus ynddi. Gall dysgwyr fod â ffydd yn y graddau a ddyfernir, ac felly hefyd y system addysg yn fwy eang a chyflogwyr y tu fewn a thu allan i Gymru.

Mae'r Grŵp yn adlewyrchu ystod eang o ysgolion a cholegau ar draws Cymru ac wedi cael y cyfle i weithio'n ddwys iawn ar y cyd â fy swyddogion, Cymwysterau Cymru a CBAC. Mae hyn yn golygu, yn fy marn i, fod gan y Grŵp Cynghori Dylunio a Chyflawni ddealltwriaeth unigryw o'r heriau a'r cyfleoedd a wynebwn wrth geisio galluogi dysgwyr i wneud cynnydd a chynnal, ar yr un pryd, hygrededd ein system gymwysterau a ffydd ynddi. Felly, yn nhymor yr hydref, pan fydd y broses o bennu graddau gan ganolfannau wedi'i chwblhau, hoffwn wahodd y Grŵp i edrych ar y gwaith a wnaed yn ystod y flwyddyn academaidd hon a'r gwersi a'r cyfleoedd y gallwn gribinio ohono – wrth inni baratoi ar gyfer cymwysterau 2022, yn ogystal ag unrhyw ystyriaethau yn y tymor hwy ynghylch cyfleoedd ar gyfer cymwysterau wrth inni fwrw ymlaen â'r broses o ddiwygio'r cwricwlwm.

Hoffwn fynegi unwaith eto fy niolch i chi am eich rôl yn cadeirio'r Grŵp. Nid oes

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i **https://llyw.cymru/llythyr-gan-jeremy-miles-gweinidog-y-gymraeg-ac-addysg-gadeirydd-y-grwp-cynghori-dylunio-chyflawni** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

gennyf unrhyw amheuaeth na fu hon yn dasg heriol a'i bod wedi gofyn am gryn argyhoeddiad ac ymroddiad personol ar eich rhan. Hoffwn hefyd ddiolch i holl aelodau'r Grŵp am eu gwaith yn ystod y flwyddyn hon i gefnogi ein dysgwyr yn y blynyddoedd arholi – gan gydnabod eu bod wedi buddsoddi eu hamser a'u hegni yn hyn, a hynny tra'n cyflawni eu rolau prysur fel arweinwyr ysgolion a cholegau.

Yn gywir,



Jeremy Miles AS/MS
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
Minister for Education and Welsh Language

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i **https://llyw.cymru/llythyr-gan-jeremy-miles-gweinidog-y-gymraeg-ac-addysg-gadeirydd-y-grwp-cynghori-dylunio-chyflawni** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Ynghylch y ddogfen hon

Mae'r ddogfen hon yn gopi o'r dudalen we **Llythyr gan Jeremy Miles, AS, Gweinidog y Gymraeg ac Addysg at Gadeirydd y Grŵp Cynghori Dylunio a Chyflawni** a lawrlwythwyd.

Ewch i **https://llyw.cymru/llythyr-gan-jeremy-miles-gweinidog-y-gymraeg-ac-addysg-gadeirydd-y-grwp-cynghori-dylunio-chyflawni** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch; darllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i **https://llyw.cymru/llythyr-gan-jeremy-miles-gweinidog-y-gymraeg-ac-addysg-gadeirydd-y-grwp-cynghori-dylunio-chyflawni** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.